ATODLEN

SAFONAU YSGOL ANNIBYNNOL

Datblygu disgyblion yn ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol

2. Mae datblygiad ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn yr ysgol yn bodloni'r safon os bydd yr ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n:—

(a) galluogi disgyblion i ddod i adnabod eu hunain yn well, ac i ddatblygu eu hunan-barch a'u hunan-hyder;

(b) galluogi'r disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg ac i barchu'r gyfraith;

(c) annog y disgyblion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain, i fod yn fentrus, ac i ddeall sut y gallant gyfrannu at fywyd y gymuned;

(ch) rhoi i'r disgyblion wybodaeth gyffredinol ac eang am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus; a

(d) helpu'r disgyblion i werthfawrogi a pharchu eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill, mewn ffordd sy'n hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac harmoni rhwng traddodiadau diwylliannol gwahanol.